CANLLAWIAU

# Rheoliadau ailgylchu yn y gweithle: asesiad effaith integredig

Yn cynnwys adrannau 1 (camau gweithredu ystyriedig) ac 8 (casgliad) yn ogystal â'r asesiad hawliau plant ac asesiad iaith Gymraeg.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 3 Hydref 2023

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 6 Tachwedd 2023

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/rheoliadau-ailgylchu-yn-y-gweithle-asesiad-effaith-integredig-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Unpublished

# Cynnwys


## Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried a pham?

### Cyflwyniad

### Yr hirdymor

### Atal

### Integreiddio

### Cydweithio a chynnwys eraill

### Effaith

### Costau ac Arbedion

### Mecanwaith

## Conclusion

### 8.1 Sut mae'r bobl sy'n fwyaf tebygol o gael eu heffeithio gan y cynnig wedi bod yn rhan o'i ddatblygu?

### 8.2 Beth yw'r effeithiau mwyaf arwyddocaol, cadarnhaol a negyddol?



**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/rheoliadau-ailgylchu-yn-y-gweithle-asesiad-effaith-integredig-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Unpublished

### 8.3 Yng ngoleuni'r effeithiau a nodwyd, sut fydd y cynnig yn:

### 8.4 Sut fydd effaith y cynnig yn cael ei fonitro a'i werthuso wrth iddo fynd rhagddo a phryd fydd yn dod i ben?

## Asesiad o'r effaith ar hawliau plant

### 1. Amcanion polisi

### 2. Casglu tystiolaeth ac ymgysylltu â phlant a phobl ifanc

### 3. Dadansoddi'r dystiolaeth ac asesu'r effaith

### 4. Cyfathrebu gyda Phlant a Phobl Ifanc

### 5. Monitro ac Adolygu

## Asesiad o'r effaith ar y Gymraeg

### Manylion

### 2. A yw'r cynnig yn dangos cyswllt clir â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg? – Cymraeg 2050 Miliwn o Siaradwyr a'r Rhaglen Waith gysylltiedig ar gyfer 2017-2021

### 3. Disgrifiwch ac eglurwch effaith y cynnig ar y Gymraeg, ac eglurwch sut y byddwch yn ymdrin â'r effeithiau hyn er mwyn gwella canlyniadau ar gyfer y Gymraeg.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/rheoliadau-ailgylchu-yn-y-gweithle-asesiad-effaith-integredig-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Unpublished

### 4. Sut fydd y cynnig yn effeithio ar gynaliadwyedd cymunedau Cymraeg [20] (yn effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol)?

### 5. Sut fydd y cynnig yn effeithio ar addysg cyfrwng Cymraeg a dysgwyr Cymraeg o bob oed, gan gynnwys oedolion (yn effeithiau cadarnhaol a/neu negyddol)?

### 6. Sut fydd y cynnig yn effeithio ar y gwasanaethau [21] sydd ar gael yn Gymraeg (yn effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol)? (e.e. gwasanaethau iechyd a chymdeithasol, cludiant, tai, digidol, ieuenctid, seilwaith, yr amgylchedd, llywodraeth leol ac ati)

### 7. Sut fyddwch chi'n sicrhau bod pobl yn gwybod am wasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg a'u bod yn gallu cael mynediad atynt a'u defnyddio mor rwydd ag y gallant yn Saesneg?

### 8. Pa dystiolaeth arall fyddai'n eich helpu i gynnal asesiad gwell?

### 9. Sut fyddwch chi'n gwybod a yw eich polisi'n llwyddiant?

---

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/rheoliadau-ailgylchu-yn-y-gweithle-asesiad-effaith-integredig-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried a pham?

## Cyflwyniad

1.1 Mae Llywodraeth Cymru yn cyflwyno rheoliadau ailgylchu yn y gweithle y disgwylir iddynt, yn amodol ar ewyllys y Senedd, ddod i rym ar 6 Ebrill 2024. Byddant yn ei gwneud yn ofynnol i bob safle annomestig (gan gynnwys busnesau, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector) wahanu deunyddiau ailgylchadwy allweddol yn y ffordd y mae'r mwyafrif o ddeiliaid tai Cymru eisoes yn ei wneud.

1.2 Mae'r rheoliadau yn cynnig y canlynol:

1.2.1 Mae'r gofynion gwahanu yn:

- Ei gwneud yn ofynnol i feddianwyr safleoedd annomestig (gan gynnwys busnesau, elusennau a chyrff yn y sector cyhoeddus) gyflwyno deunyddiau ailgylchadwy penodol i'w casglu ar wahân i'w gilydd ac ar wahân i wastraff gweddilliol;
- Ei gwneud yn ofynnol i'r rhai sy'n casglu'r deunyddiau ailgylchadwy penodedig eu casglu ar wahân i ddeunyddiau ailgylchadwy eraill;
- Ei gwneud yn ofynnol i'r deunyddiau ailgylchadwy a gasglwyd gael eu cadw ar wahân a pheidio â chael eu cymysgu.

1.2.2 Gwaharddiadau o ran peiriannau llosgi a safleoedd thirlenwi

- Gwahardd deunyddiau ailgylchadwy penodol a gesglir ar wahân o safleoedd annomestig a domestig rhag mynd i beiriannau llosgi a safleoedd tirlenwi;
- Gwahardd pob gwastraff pren o safleoedd annomestig a domestig rhag mynd i safleoedd tirlenwi.

1.2.3 Gwaharddiad ar gael gwared ar wastraff bwyd i garthfosydd o safleoedd annomestig

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/rheoliadau-ailgylchu-yn-y-gweithle-asesiad-effaith-integredig-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

- Cychwyn gwaharddiad ar gael gwared ar wastraff bwyd i garthffosydd o safleoedd annomestig.

1.3 Bydd angen i’r deunyddiau canlynol gael eu gwahanu ar gyfer eu casglu, a'u casglu ar wahân a pheidio â chael eu cymysgu wedi hynny:

- gwydr;
- papur a cherdyn;
- metelau, plastig a chartonau
- bwyd a gynhyrchir gan safleoedd sy’n cynhyrchu mwy na 5kg o wastraff bwyd mewn wythnos;
- cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff bach sydd heb eu gwerthu (sWEEE);
- tecstilau sydd heb eu gwerthu.

# Yr hirdymor

1.4 Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), mae'r diwygiadau hyn yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol hirdymor Cymru. O ystyried yr argyfwng hinsawdd, bydd y rheoliadau hyn yn cefnogi gweithleoedd i weithredu drwy sicrhau bod deunyddiau yn cael eu defnyddio cyhyd â phosibl, sydd yn ei dro yn rhan allweddol o'r symud tuag at economi gylchol.

1.5 Er bod gweithleoedd wedi mynegi y gallai gweithredu'r rheoliadau hyn arwain at dreuliau ychwanegol ar y dechrau i fusnesau a sefydliadau er mwyn darparu ar gyfer gwahanu deunyddiau ailgylchu, bydd y diwygiadau nid yn unig yn cefnogi camau gweithredu ar yr argyfwng natur a'r hinsawdd, ond byddant yn helpu i sicrhau cyfleoedd economaidd ac arbedion hirdymor wrth i'r hyn a arferai fod yn ddeunydd gwastraff gael ei gadw fel nwydd, gyda manteision hirdymor pellach o ran gwytnwch cadwyni cyflenwi.

1.6 Fel y gwelwyd gydag ailgylchu mewn cartrefi yng Nghymru, wrth i

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/rheoliadau-ailgylchu-yn-y-gweithle-asesiad-effaith-integredig-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

fusnesau a sefydliadau wahanu eu gwastraff i gynwysyddion gwahanol, bydd hyn yn tynnu sylw at faint o bob math o wastraff sy'n cael ei gynhyrchu, sy'n annog camau gweithredu i leihau'r gwastraff hyn. Mae hyn yn helpu busnesau i arbed arian ar gostau casglu a gwaredu ac yn gwella effeithlonrwydd adnoddau.

# Atal

1.7 Mae cyfraddau ailgylchu trefol wedi tyfu i dros 65% yn 2021-22, gan gyfrannu arbedion o tua 400,000 o dunelli o allyriadau CO2 y flwyddyn. Mae pob cartref yng Nghymru yn chwarae ei ran, gan ddangos sut y gall camau bach arwain at newid sylfaenol.

1.8 Bydd y diwygiadau'n cynyddu ansawdd a chyfradd ailgylchu deunyddiau gwastraff a gynhyrchir mewn safleoedd annomestig yng Nghymru, a thrwy wneud hynny, byddant yn cefnogi ymrwymiadau Cymru i fod yn ddiwastraff ac allyriadau carbon sero net erbyn 2050. Yn ogystal, bydd yn cefnogi ein cynnydd tuag at economi fwy cylchol ac yn sicrhau manteision cadarnhaol o ran yr economi a swyddi.

1.9 Drwy fod yn rhagweithiol byddwn yn:

- darparu mwy o sicrwydd o gyflenwi adnoddau i'n sector gweithgynhyrchu;
- cyflymu'r cynnydd tuag at economi gylchol i Gymru drwy fusnesau gweithgynhyrchu Cymru yn defnyddio deunyddiau ailgylchadwy a gesglir yng Nghymru;
- cynyddu lefel yr ailgylchu o safleoedd annomestig;
- lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr;
- lleihau llygredd.

1.10 Mae economi gylchol, sy'n symud oddi wrth ddefnydd untro, yn lleihau ein hallyriadau, ac yn helpu i atal niwed pellach i amgylchedd ac economi Cymru drwy wella gwytnwch y gadwyn gyflenwi. Mae hyn oherwydd bod deunyddiau a gesglir yn cael eu hailgylchu yn ôl i'r economi sy'n lleihau ein dibyniaeth ar

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/rheoliadau-ailgylchu-yn-y-gweithle-asesiad-effaith-integredig-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

ddeunyddiau crai a gaiff eu hechdynnu o dramor. Mae hyn yn ei dro yn lleihau'r niwed cysylltiedig i natur, bioamrywiaeth a'r amgylchedd yn fyd-eang a achosir gan echdynnu a phrosesu'r deunyddiau crai.

## Integreiddio

1.11 Mae'r diwygiadau hyn yn rhan allweddol o'r ffordd yr ydym yn cyflawni ein hymrwymiadau yn y Rhaglen Lywodraethu i adeiladu economi gryfach a gwyrddach yn seiliedig ar egwyddorion cynaliadwyedd a diwydiannau a gwasanaethau'r dyfodol yn ogystal â bod yn elfen hanfodol o gamau gweithredu i ddatgarboneiddio ac ymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur. Drwy wneud hynny, maent yn cydnabod yr angen i integreiddio camau gweithredu economaidd ac amgylcheddol wrth fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur.

1.12 Drwy gychwyn y rheoliadau hyn, byddwn yn sicrhau bod y systemau ar gyfer ailgylchu mewn cartrefi a gweithleoedd yn cyd-fynd yn agosach. Er mwyn cyflawni hyn, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) fydd yn gyfrifol am reoleiddio'r gofynion gwahanu ac eithrio'r gwaharddiad ar waredu gwastraff bwyd i garthffosydd, a fydd yn cael ei reoleiddio gan Awdurdodau Lleol. Bydd y ddau yn darparu canllawiau a gwybodaeth i'r rhai yr effeithir arnynt, gan gynnwys dulliau ac adnoddau ar y gyfundrefn orfodi a fydd yn cael eu cyflwyno i sicrhau bod pawb yr effeithir arnynt yn ymwybodol o'r gofynion ac yn cydymffurfio. Fel y gwelwyd gydag ailgylchu mewn cartrefi, rhaid i weithleoedd gydymffurfio â'r rheoliadau drwy wahanu eu gwastraff i gynwysyddion gwahanol, a thrwy wneud hynny byddant yn cael eu hannog ymhellach i gymryd camau gweithredu i leihau eu gwastraff.

## Cydweithio a chynnwys eraill

1.13 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ac ymgysylltu'n helaeth

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/rheoliadau-ailgylchu-yn-y-gweithle-asesiad-effaith-integredig-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

ynghylch y diwygiadau hyn ac wedi parhau i ymgysylltu'n rheolaidd â rhanddeiliaid a phartneriaid allweddol (gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Leol) wrth ddatblygu'r polisi a'r rheoliadau sylfaenol. Cadarnhaodd arolwg cynrychioliadol diweddar gefnogaeth gyhoeddus eang i'r diwygiadau (sef 77% o'r ymatebwyr), gan gynnwys ymhlith y rhai sy'n gwneud penderfyniadau mewn sefydliadau a fydd yn cael eu heffeithio gan y rheoliadau hyn. [2] Mae cydweithio â rhanddeiliaid wedi rhoi cyfle iddynt roi mewnbwn hanfodol ar y dull gweithredu, cyflwyno ffrydiau gwastraff penodol yn raddol, safbwyntiau ar y dyddiad dod i rym a chymesuredd y gyfundrefn orfodi. Er enghraifft:

- 2009 Ymgynghoriad Tuag at Ddyfodol Diwastraff: Nod yr ymgynghoriad hwn oedd sicrhau lefel uchel o ailgylchu a sicrhau bod yr holl ddeunyddiau ailgylchadwy yn cael eu gwahanu yn y tarddiad fel eu bod yn lân ac o werth uchel.
- 2013-14 – Ymgynghoriad Papur Gwyn Bil yr Amgylchedd: yn cynnwys ymgynghoriad ar y ddyletswydd gwahanu.
- 2019-2020 – Ymgynghoriad Mwy Nag Ailgylchu, Strategaeth Economi Gylchol Cymru: Roedd yr ymgynghoriad hwn yn cynnwys yr ymrwymiad i'r diwygiadau gyda thua 40 o ddigwyddiadau wyneb yn wyneb wedi'u teilwra i gynulleidfaoedd penodol ac ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol i hyrwyddo mwy o ailgylchu ym mhob lleoliad annomestig.
- 2019 Ymgynghoriad Cynyddu Ailgylchu ymhlith Busnesau yng Nghymru: Nododd yr ymgynghoriad cyhoeddus hwn yr opsiwn polisi a ffefrir i gyflwyno offerynnau statudol (OSau) i gynyddu ailgylchu o safleoedd annomestig, fel busnesau a'r sector cyhoeddus yng Nghymru. [3]
- 2022-23 Ymgynghoriad ar Ddeddfwriaeth Ailgylchu yn y Gweithle: Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos ar y cod ymarfer drafft a'r cynigion gorfodi, cyfarfodydd wyneb yn wyneb ac ymgyngoriadau cyhoeddus â gweithleoedd. Nododd adborth o'r ymgyngoriadau gefnogaeth gadarnhaol ar gyfer cyflwyno'r rheoliadau hyn.

[2] **Llywodraeth Cymru, Agweddau'r cyhoedd ar y newidiadau i ailgylchu yn y gweithle a'r gwaharddiad ar blastigau untro (crynodeb), 2023**.

[3] **Llywodraeth Cymru, Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion.**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/rheoliadau-ailgylchu-yn-y-gweithle-asesiad-effaith-integredig-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Cynyddu ailgylchu ymhlith busnesau yng Nghymru, 2021.

# Effaith

1.14 Mae'r argyfyngau hinsawdd a natur yn effeithio ar bawb, ond bydd yr effeithiau negyddol yn cael eu teimlo'n anghymesur gan grwpiau penodol fel pobl hŷn, pobl anabl, pobl ifanc ac aelwydydd incwm isel. [4]

Bydd gweithredu'r ddeddfwriaeth yn cael effaith gadarnhaol uniongyrchol ar ein hamgylchedd, ein hiechyd a'r economi yn y tymor byr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

1.15 Yn ei asesiad o'r Glasbrint Casgliadau, canfu Eunomia [5] fod cael gafael ar ddeunyddiau o ansawdd uchel drwy gasglu gwastraff ar wahân yn debygol o gefnogi'r broses o gadw deunyddiau o fewn economi Cymru ac economi'r DU – gan arwain at fanteision cymdeithasol ac economaidd yn unol ag amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Bydd y diwygiadau hyn hefyd yn arwain at y manteision canlynol:

- Creu cyfleoedd ar gyfer swyddi a hyfforddiant yn y sector rheoli gwastraff.
- Ochr yn ochr â chost ynni, mae cost deunyddiau yn effeithio ar yr argyfwng costau byw, ac felly bydd cadw gafael ar ddeunyddiau o ansawdd uchel a all fynd yn ôl i economi Cymru yn fwy effeithiol yn ffordd anhepgor y gallwn wella gwytnwch ein cadwyni cyflenwi domestig sy'n cyflenwi deunyddiau allweddol i fusnesau
- Disgwylir y bydd mwy o gyfleoedd ar gyfer swyddi sy'n deillio o weithredu'r ddeddfwriaeth o fudd i aelwydydd incwm is. Bydd y manteision ehangach i'r economi yn arwain at fwy o gynaliadwyedd a gwytnwch a fydd yn arwain at effaith gadarnhaol ar aelwydydd incwm isel.

[4] **“Effeithiau’r newid yn yr hinsawdd ar iechyd a llesiant”, 2021**.

[5] **Joe Papineschi, Emma Tilbrook, a Luke Emery, ‘Review of the Welsh**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/rheoliadau-ailgylchu-yn-y-gweithle-asesiad-effaith-integredig-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Government Collections Blueprint', Eunomia, 2016.

## Costau ac Arbedion

1.16 Mae'r dystiolaeth yn dangos y bydd y diwygiadau hyn, yn sicrhau arbedion cyffredinol i economi Cymru, wedi'u modelu i fod yn £186.9 miliwn o werth presennol net (NPV) dros 10 mlynedd – 2024-2033 [6], drwy sicrhau costau uwch ar gyfer deunyddiau o ansawdd uchel a gasglwyd. Bydd y diwygiadau hyn yn sicrhau y gallwn gadw gafael ar gyflenwad gwydn o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu o ansawdd uchel, y gellir eu dychwelyd i'r economi wedyn. Bydd hyn yn ei dro yn helpu i sicrhau manteision yr economi gylchol a chefnogi gwytnwch busnes drwy bontio i economi wedi'i datgarboneiddio.

1.17 Mae'r gyllideb a ddarperir i gefnogi gweithredu'r rheoliadau yn cynnwys grantiau, cymorth ar gyfer arloesi a sefydliadau partneriaid cyflawni. Mae hyn yn cynnwys ehangu Cronfa'r Economi Gylchol, sef ymrwymiad allweddol yn Mwy nag Ailgylchu a Cymru Sero Net, sy'n cefnogi busnesau i addasu eu prosesau i ddefnyddio mwy o gynnwys wedi'i ailgylchu mewn prosesau gweithgynhyrchu yng Nghymru.

[6] **Llywodraeth Cymru, Effaith Reoleiddiol Opsiynau i Gynyddu Cyfraddau Ailgylchu Gweithleoedd yng Nghymru, 2023 Tabl 26, Ailgylchu yn y gweithle**.

## Mecanwaith

1.18 Mae'r rheoliadau a'r Cod Ymarfer yn cael eu gosod gerbron y Senedd yn ystod tymor yr hydref 2023 a bydd y dyletswyddau'n dod i rym o 6 Ebrill 2024 ymlaen.

1.19 Caiff canlyniadau'r rheoliadau eu monitro drwy gyfuniad o ddulliau

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/rheoliadau-ailgylchu-yn-y-gweithle-asesiad-effaith-integredig-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

meintiol ac ansoddol, yn dibynnu ar natur y canlyniad ac argaeledd ffynhonnell ddata briodol. O 2025 ymlaen, bydd y system olrhain gwastraff yn cael ei defnyddio fel ffynhonnell ddata sylfaenol i olrhain lefelau ailgylchu ar gyfer gwastraff diwydiannol a masnachol yng Nghymru.

1.20 Mae ffynonellau data ychwanegol yn bodoli a gellir eu defnyddio yn y cyfamser ac maent yn cynnwys:

- WasteDataFlow
- Cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr dros becynwaith
- Arolygon gwastraff ac ailgylchu Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)
- Data 'ffurflenni safleoedd' CNC.

# Conclusion

## 8.1 How have people most likely to be affected by the proposal been involved in developing it?

8.1.1 Throughout our extensive engagement on this policy of source separation, the Welsh Government has actively involved businesses, public sector and third sector organisations, many of whom are interested groups and representatives of people with protected characteristics under the Equality Act 2010; Welsh speakers and Welsh language specialist groups; children and young people; and other people who will be affected by these reforms.

8.1.2 Our engagement to-date includes more than a decade of consultation and ongoing engagement to come to our preferred policy option, data gathering and analysis and stakeholder engagement. The Welsh Government has engaged with a range of stakeholders on source separation policy development on an ongoing basis dating back to at least 2009.

8.1.3 Collaboration with stakeholders has provided an opportunity for them to provide integral input on the phasing in of certain waste streams, views on the

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/rheoliadau-ailgylchu-yn-y-gweithle-asesiad-effaith-integredig-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

coming into force date and the proportionality of the enforcement regime.

- 2009 Towards Zero Waste consultation: The aim of this consultation was to achieve a high level of recycling and to make sure that all recyclates are separated at source so that they are clean and of high value.
- 2013-14 - Environment Bill White Paper consultation: included consultation on the separation duty.
- 2019-2020 - Consultation on Beyond Recycling, the Circular Economy Strategy for Wales: included the commitment to the reforms with approximately 40 face-to-face events tailored to specific audiences and a formal public consultation to promote higher recycling in non-domestic settlings.
- 2019 Consultation on Increasing Business Recycling in Wales: consultation on the preferred policy option to bring forward statutory instruments (SIs) to increase recycling from non-domestic premises such as businesses and the public sector in Wales [7].
- 2022-23 Consultation on the Workplace Recycling Legislation: a 12-week public consultation on the draft code of practice and enforcement proposals, face-to-face meetings and public consultations with key stakeholders across target groups. Feedback from the consultations indicated affirmative support for the introduction of these regulations.

[7] "Consultation – **summary of response. Increasing Business recycling in Wales", Welsh Government, 2021**, .

## 8.2 What are the most significant impacts, positive and negative?

8.2.1 These reforms will increase the quality and level of recycling from non-domestic premises in Wales. In doing so, this will represent a key step forward in Wales' commitment to reaching zero waste and net zero carbon emissions by 2050. This also reflects the fact that in order to tackle the climate and nature emergencies, moving to a circular economy – where materials are kept in use

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/rheoliadau-ailgylchu-yn-y-gweithle-asesiad-effaith-integredig-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

and waste is avoided - is essential and an important element of being a globally responsible Wales. In line with the Welsh Government's Well-being objectives [8] the reforms directly support building a greener economy based on the industries of the future and embedding our response to the climate and nature emergency in everything we do.

8.2.2 A circular economy, which moves away from single use, decreases our emissions, and improves supply chain resilience, benefits the economy as well as the environment, as collected materials are recycled back into the economy whilst reducing our dependency on raw materials extracted from overseas. This in turn reduces the associated damage to nature, biodiversity and the environment globally caused by the extraction and processing of the raw materials.

8.2.3 For individual businesses and organisations, the reforms will support the move away from a situation where the disposal of waste is a significant cost, to one where that waste material is instead effectively captured and returned into our economy as important commodities. Alongside increased resource efficiency and tackling the cost of living, this will also help to support business productivity and competitiveness in a decarbonising global economy. These reforms bring benefits by creating overall savings to the Welsh economy, securing higher prices for high quality materials captured, whilst creating opportunities to derive greater added economic value in Wales and creating additional jobs in the circular economy – crucial to a more prosperous and resilient Wales. The reforms also create alignment between the recycling behaviours of households and businesses, reducing the complexity of the system for all users.

8.2.4 Through tackling the climate and nature emergencies, these reforms will bring important environmental, economic and health benefits to people in Wales (a healthier Wales). People will benefit from reduced carbon emissions impacting air quality, and recycling has become a point of national pride which generates opportunities to bring people together e.g. through repair and reuse (a Wales of cohesive communities, a Wales of vibrant culture) and by doing so creates opportunities for the Welsh Language.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/rheoliadau-ailgylchu-yn-y-gweithle-asesiad-effaith-integredig-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

8.2.5 For individual citizens, the regulations will provide:
• less confusion and greater consistency in terms of what and how they recycle. In relation to recycling in the workplace, this will largely be the same as how they do it at home;

- a greater sense of self-satisfaction / agency for their efforts to tackle the nature and climate emergencies;
- greater empathy for their employers doing their bit.

[8] **"Programme for government 2021 to 2026: Well-being statement", *Welsh Government*, 2021**.

# 8.3 In light of the impacts identified, how will the proposal:

- maximise contribution to our well-being objectives and the seven well-being goals;  and/or,
- avoid, reduce or mitigate any negative impacts?

8.3.1 The Welsh Government is taking an active role promoting biodiversity, children's rights, equalities and the Welsh language with these reforms.

8.3.2 To date, the Welsh Government has invested over £1 billion in household recycling, which has transformed Wales from a nation that recycled less than 5% of its municipal waste to over 65% in 2021-22 and is already contributing savings of around 400,000 tonnes of CO2 emissions a year. These regulations promote the shift to a circular economy, reducing resource extraction and limiting the generation of waste, which helps to accelerate decarbonisation and reduce biodiversity loss. Continued action in this area is essential to our response to the climate and nature emergency, supporting the objective of embedding it in everything we do, whilst helping to build a stronger, greener economy as we make progress towards net zero and zero waste, creating a green and prosperous Wales for future generations.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/rheoliadau-ailgylchu-yn-y-gweithle-asesiad-effaith-integredig-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

8.3.3 The Welsh Government supports businesses to implement sustainable best practices through Business Wales, Food and Drink Wales, WRAP Cymru and the Biodiversity Partnership, and is developing sector-specific guidance on the implementation of these reforms with WRAP. A variety of support tools will be developed to help businesses and organisations to implement the changes, such as best practice case studies, guides and downloadable signage and resources. To mitigate a potential increase in the use of diesel vehicles in the waste sector, as it may not always be possible for waste collection to collect multiple streams simultaneously, leading to more trips, the Welsh Government is assisting with the transition to greener vehicles with grants to local authorities for electric collection vehicles and charging infrastructure. [9] Moreover, the negative impact of any expansion to existing waste management facilities or new facilities is more than mitigated by the saving in emissions from the material substitution of the recycled material collected replacing raw materials.

8.3.4 There are no significant negative effects on the Welsh Government's statutory public sector equalities duties and implementation of the regulations will be fully compliant with the Equality Act 2010, with the provision of guidance and materials in accessible formats and targeting different languages. All legislation, correspondence and publicity will also comply with the Welsh Language (Wales) Measure 2011. The reforms contribute towards a more equal Wales as they bring about positive action to address the climate crisis which is anticipated to hit the most vulnerable communities hardest and it will also create a cleaner, greener and more sustainable environment with associated jobs and investment in the circular economy. The Welsh Government is working to minimise the cost impact on micro-businesses, which are the only businesses predicted to face a small increase in costs, [10] by incentivising the co-collection of household and non-domestic waste. All other businesses are predicted to make savings.

8.3.5 The Health Impact Assessment concludes that, overall, the circular economy approach (which underpins the regulations) will have a positive impact on the wider determinants of health and wellbeing for the general population. In particular, through reduced emissions of C02 and N02 and mitigating the impact of climate change, which is disproportionately harmful for certain groups.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/rheoliadau-ailgylchu-yn-y-gweithle-asesiad-effaith-integredig-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

8.3.6 Children and young people are stakeholders directly affected by these reforms who will reap the many positive benefits. We want to harness the passion and enthusiasm of our young people, utilising the levers at our disposal such as our environmental education programmes, to ensure we involve children and young people early in our future thinking and influence positive behaviour change and creative thinking amongst our next generation.

8.3.7 We will provide the tools to enable community action. This includes support tools to help to implement the changes, such as best practice case studies, guides, downloadable signage, bin signs and posters, online webinars, and other resources. By supporting local actions, it will collectively make a big difference. We will engage with our schools and communities, working with citizens to support local initiatives and resource efficient actions. In addition, Welsh Government is taking action to promote the procurement of receptacles with recycled content for the public sector. A key priority of this agreement is to increase recycled polythene content within the products supplied. This approach will allow participating organisations to make a decision that is aligned to their environmental and commercial strategy.

[9] "**Local transport fund, resilient roads fund and ultra low emission vehicle transformation fund: guidance to applicants 2023 to 2024**", Welsh government, 2022, I and "**£15m 'boost' will increase the number of Welsh electric vehicle charging points**", Welsh Government, 2023.
[10] "RIA, Welsh Government, 2023, Table 22.

## 8.4 How will the impact of the proposal be monitored and evaluated as it progresses and when it concludes?

8.4.1 The outcomes of the regulation implementation will be monitored with a combination of quantitative and qualitative methods, depending on the nature of the outcome and the availability of an appropriate data source. The waste

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/rheoliadau-ailgylchu-yn-y-gweithle-asesiad-effaith-integredig-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

tracking system will once implemented, from 2025 onwards, be used as a primary data source to track recycling levels for industrial and commercial waste in Wales, as it will provide information allowing measurement of the amount of waste sent for recycling, landfill, or incineration, and where it is disposed.

8.4.2 In addition, a number of other data sources that will be used in the interim include: WasteDataFlow, National Resources Wales (NRW) waste and recycling surveys, along with NRW ‘site return’ data.

8.4.3 The outcomes relating to reduced disposal of food waste to sewer will be monitored during the inspections carried out by Local Authority Environmental Health Officers, who will report the premises disposing of food waste to sewer.

8.4.4 The Welsh Government will explore the need for specific commissioned surveys to further monitor the extent of compliance and any potential barriers to the successful implementation of the proposals or add regulation-specific questions to the already planned future business surveys. Moreover, qualitative data gathered during the NRW, LA and Welsh inspections of non-domestic premises and waste handlers will further provide information about the impacts of the regulations on businesses.

# Asesiad o'r effaith ar hawliau plant

# 1. Amcanion polisi

## Effaith pa benderfyniad ydych chi’n ei hasesu?

1.1. Mae Llywodraeth Cymru’n cyflwyno rheoliadau newydd y mae disgwyl iddynt ddod i rym ar 6 Ebrill 2024 ac a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i’r holl safleoedd annomestig (gan gynnwys busnesau, a’r sector cyhoeddus a’r trydydd sector) wahanu deunyddiau ailgylchadwy allweddol fel y mae’r mwyafrif o ddeiliaid tai Cymru eisoes yn ei wneud. Bydd hyn yn cynnwys yr holl ysgolion a cholegau, a safleoedd busnes eraill a safleoedd eraill yn y sector cyhoeddus y

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/rheoliadau-ailgylchu-yn-y-gweithle-asesiad-effaith-integredig-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

mae pobl ifanc yn ymweld â hwy.

1.2. Bydd y rheoliadau:

- yn ei gwneud yn ofynnol i feddianwyr safleoedd annomestig (gan gynnwys busnesau, elusennau a chyrff y sector cyhoeddus) gyflwyno deunyddiau ailgylchadwy penodedig i gael eu casglu ar wahân i'w gilydd ac ar wahân i wastraff gweddillol;
- yn ei gwneud yn ofynnol i'r rhai sy'n casglu'r deunyddiau eu casglu trwy gasgliad ar wahân a'u cadw ar wahân;
- yn gwahardd rhai deunyddiau ailgylchadwy penodol a gesglir ar wahân rhag cael eu llosgi a'u hanfon i safle tirlenwi;
- yn gwahardd yr holl wastraff pren o safleoedd tirlenwi;
- yn dechrau gwaharddiad ar waredu gwastraff bwyd i garthffos o safleoedd annomestig.

1.3. Mae'r rheoliadau'n cyflawni yn erbyn dau ymrwymiad trosfwaol yn y Rhaglen Lywodraethu:

- adeiladu economi gryfach a gwyrddach wrth inni ddatgarboneiddio cymaint â phosibl; ac
- ymgorffori ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn.

1.4. Mae'r diwygiadau'n elfen graidd o gamau gweithredu Llywodraeth Cymru i gyflawni ei hymrwymiad i greu dyfodol diwastraff a chyfrannu at arbedion carbon sylweddol trwy gysoni ailgylchu annomestig â system ailgylchu domestig lwyddiannus Cymru. Bydd y diwygiadau hyn o fudd i bawb yng Nghymru, yn enwedig y rhai sy'n agored i niwed a chenedlaethau'r dyfodol, trwy fynd i'r afael â lleihau gwastraff, creu arbedion carbon, a darparu'r deunyddiau sy'n angenrheidiol i hybu cynnydd tuag at economi gylchol.

1.5. Er mwyn i Gymru fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a bioamrywiaeth, yn ogystal â gweithredu adferiad gwyrdd o'r pandemig, rhaid i ni fabwysiadu dull heb edifeirwch o fuddsoddi yn yr economi werdd ac mewn prawfesur o safbwynt yr hinsawdd yn awr. [11] Bydd cael a chadw mwy o fudd economaidd o'r

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/rheoliadau-ailgylchu-yn-y-gweithle-asesiad-effaith-integredig-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

deunyddiau a gesglir o safleoedd annomestig yng Nghymru'n gwella cydnerthedd cadwyni cyflenwi gan hefyd leihau ein dibyniaeth ar ddeunyddiau crai o dramor. Mae'r diwygiadau hyn felly'n gam gweithredu allweddol i fynd i'r afael ag effeithlonrwydd adnoddau a lleihau'r defnydd o ddeunyddiau crai, gan felly fynd i'r afael ag achosion sylfaenol yr argyfwng hinsawdd a natur.

[11] **Llywodraeth Cymru, Mwy Nag Ailgylchu: Asesiad Effaith Integredig, 2021** (llyw.cymru).

## 2. Casglu tystiolaeth ac ymgysylltu â phlant a phobl ifanc

### Pa ymchwil a data presennol ar blant a phobl ifanc sydd ar gael i oleuo eich polisi penodol? Gallai eich amcan polisi effeithio ar feysydd polisi eraill – bydd trafodaethau gyda thimau polisi eraill yn rhan bwysig o'r broses o asesu'r effaith gan sicrhau eich bod wedi casglu'r amrywiaeth o wybodaeth a thystiolaeth.

2.1. Mae sylfeini'r ddeddfwriaeth ailgylchu mewn gweithleoedd yn ymestyn yn ôl i'r amser cyn Deddf yr Amgylchedd (Cymru). Yn 2010, fe wnaeth Tuag at Ddyfodol Diwastraff [**12**] nodi'n ffurfiol gynllun hirdymor i leihau effaith gwastraff yng Nghymru trwy amcanu at ddileu gwastraff gweddillol ac ailgylchu unrhyw wastraff a gaiff ei gynhyrchu. Datganodd, "I gyflawni lefel uchel o ailgylchu, mae angen i ni wneud yn siŵr bod ein holl ddeunyddiau eildro'n cael eu gwahanu yn y tarddiad fel eu bod yn lân a bod iddynt werth uchel". Mae ystyriaeth i blant a phobl ifanc a llesiant cenedlaethau'r dyfodol yn thema gref drwy'r strategaeth ac fe adolygir hynny yn Tuag at Ddyfodol Diwastraff: Adroddiad Cynnydd. [**13**]

2.2. Fe gynhaliom ni adolygiad o lenyddiaeth bresennol, er enghraifft fe gyhoeddodd Pwyllgor Sbwriel a Gwastraff Plastig Senedd Ieuenctid Cymru adroddiad yn 2020, 'Y Gorau o'n Gwastraff', a ganfu fel a ganlyn:

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/rheoliadau-ailgylchu-yn-y-gweithle-asesiad-effaith-integredig-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

- mae 87% o ieuenctid Cymru'n meddwl bod ailgylchu, ailddefnyddio a lleihau gwastraff yn bwysig iddynt;
- roedd cyfran fawr o'r rhai a arolygwyd yn teimlo'i bod hi'n bwysig lleihau, ailddefnyddio ac ailgylchu sbwriel a gwastraff plastig yn y cartref (87%), tra'u bod allan gyda theulu neu ffrindiau (84%), ac yn yr ysgol (84%);
- mae 85% yn hyderus eu bod yn gwybod beth maent yn gallu ei ailgylchu;
- 67% o bobl ifanc sy'n gwybod am ffyrdd eraill o leihau sbwriel a gwastraff plastig heblaw am ailgylchu;
- byddai 38% yn dewis eitemau gyda llai o becynnu;
- 12% fyddai'n dewis gwneud cwyn neu siopa yn rhywle arall os nad yw cwmni/sefydliad yn delio â'i wastraff mewn ffordd gyfrifol.

2.3. Fe welsant hefyd ymatebion ysgrifenedig i'w harolwg bod pobl ifanc am weld siopau a chynhyrchwyr yn gwneud mwy i ymateb i ailddefnyddio ac ailgylchu. Cyfeiriwyd at yr angen i leihau pecynnu, i siopau i gynnig gorsafoedd ail-lenwi a defnyddio pecynnu bioddiraddadwy

2.4. Mae'r ymatebion hyn yn cyd-fynd yn gryf â barn rhanddeiliaid ehangach ynglŷn ag ailddefnyddio ac ailgylchu ac adborth sydd wedi arwain at y diwygiadau hyn.

## Gan ddefnyddio'r ymchwil hon, sut ydych chi'n rhagweld y bydd eich polisi'n effeithio ar wahanol grwpiau [14] o blant a phobl ifanc, yn gadarnhaol ac yn negyddol? Cofiwch y gall polisïau sy'n canolbwyntio ar oedolion effeithio ar blant a phobl ifanc hefyd.

2.3 Mae'r argyfwng hinsawdd a natur yn effeithio ar bawb, ond bydd yr effeithiau negyddol yn cael eu teimlo'n anghymesur gan ein plant a'n pobl ifanc a chenedlaethau'r dyfodol. [15] Mae newid hinsawdd wedi cael ei adnabod fel un o'r bygythiadau mwyaf sy'n wynebu cenedlaethau'r dyfodol; bydd rhoi'r ddeddfwriaeth ar waith yn cael effaith gadarnhaol uniongyrchol ar ein hamgylchedd, ein hiechyd a'n llesiant, a'r economi yn y tymor byr a hir. YUn ei

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/rheoliadau-ailgylchu-yn-y-gweithle-asesiad-effaith-integredig-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

asesiad o'r Glasbrint Casgliadau, canfu Eunomia [16] fod casglu deunydd o ansawdd da trwy gasglu gwastraff ar wahân yn debygol o fod o gymorth i gadw deunydd yn economïau Cymru a'r DU – gan arwain at fanteision cymdeithasol ac economaidd yn unol ag amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

2.4 Mae'r rheoliadau'n gyfle i greu cydraddoldeb rhwng aelwydydd a safleoedd annomestig. Cyflwyno deunyddiau i'w hailgylchu mewn ffrydiau ailgylchu wedi'u gwahanu ac ar wahân i wastraff gweddillol yw arfer cyfredol y rhan fwyaf o aelwydydd yng Nghymru. Bydd y rheoliadau'n hybu mwy o gydraddoldeb a chysondeb gan ei gwneud yn ofynnol yn awr bod safleoedd annomestig yn gwahanu eu defnyddiau ailgylchadwy yn y ffordd y mae aelwydydd yn ei wneud. Bydd yn rhoi cyfleoedd cyfartal i bawb gyfranogi mewn ailgylchu.

2.5 Mae Erthygl 12 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn dynodi hawl plant a phobl ifanc i leisio'u barn ynglŷn â phob mater sy'n effeithio arnynt hwy a bod y farn honno'n cael ei chymryd o ddifrif. Hefyd, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn nodi saith Nod Llesiant a'r gofyniad i gynnwys pobl â buddiant mewn cyrraedd y nodau llesiant fel un o'i phum ffordd o weithio. Mae plant a phobl ifanc yn rhanddeiliaid yr effeithir yn uniongyrchol arnynt gan y diwygiadau hyn ac a fydd yn cael nifer o fanteision cadarnhaol.

2.6 Mae arnom eisiau harneisio awch a brwdfrydedd ein pobl ifanc, gan ddefnyddio'r ysgogiadau sydd ar gael i ni fel ein rhaglenni addysg amgylcheddol, i sicrhau ein bod yn cynnwys plant a phobl ifanc ac yn dylanwadu ar newid cadarnhaol mewn ymddygiad a syniadau creadigol ymhlith ein cenhedlaeth nesaf.

2.7 Byddwn yn darparu'r offer i alluogi cymunedau i weithredu. Mae hyn yn cynnwys offer cymorth i helpu i roi'r newidiadau ar waith, megis astudiaethau achos arfer gorau, canllawiau, arwyddion y gellir eu lawrlwytho, arwyddion ar gyfer biniau a phosteri, gweminarau ar-lein, ac adnoddau eraill. Trwy gefnogi camau gweithredu lleol, bydd yn gwneud gwahaniaeth mawr ar y cyd. Er enghraifft, mae Llywodraeth Cymru'n hybu ac yn cefnogi proses i gaffael

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/rheoliadau-ailgylchu-yn-y-gweithle-asesiad-effaith-integredig-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

cynwysyddion â chynnwys wedi'i ailgylchu ar gyfer y sector cyhoeddus. Un o flaenoriaethau allweddol y cytundeb hwn yw cynyddu cynnwys polythen wedi'i ailgylchu o fewn y cynhyrchion a gyflenwir. Bydd y dull hwn yn galluogi sefydliadau sy'n cyfranogi i wneud penderfyniad sy'n cyd-fynd â'u strategaeth amgylcheddol a masnachol. Byddwn yn ymgysylltu â'n hysgolion a'n cymunedau, gan weithio gyda dinasyddion i gefnogi mentrau lleol a chamau gweithredu sy'n defnyddio adnoddau'n effeithlon.

## Pa waith cyfranogol gyda phlant a phobl ifanc ydych chi wedi'i ddefnyddio i oleuo eich polisi? Os nad ydych wedi ymgysylltu â phlant a phobl ifanc, eglurwch pam os gwelwch yn dda. [17]

2.8 Mae ein gweithgarwch ymgysylltu hyd yma'n cynnwys mwy na degawd o ymgynghori ac ymgysylltu parhaus i bennu'r sefyllfa bolisi derfynol, a danategwyd gan waith casglu a dadansoddi data ac ymgysylltu â rhanddeiliaid. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ymgysylltu ag ystod o randdeiliaid ar ddatblygu polisi gwahanu yn y tarddiad ar sail barhaus ers 2009 o leiaf.

2.9 Ymgynghoriad Tuag at Ddyfodol Diwastraff 2009:

Roedd yr ymgynghoriad ynghylch y polisi hwn yn cynnwys y nod "I gyflawni lefel uchel o ailgylchu, mae angen i ni wneud yn siŵr bod ein holl ddeunyddiau eildro'n cael eu gwahanu yn y tarddiad fel eu bod yn lân a bod iddynt werth uchel. Rydym yn amcanu at ddatblygu system gasglu effeithlon ac effeithiol i wahanu gwastraff masnachol a diwydiannol cymysg."

- Cynhaliwyd tri digwyddiad ymgynghori ledled Cymru – daeth rhanddeiliaid o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r sector gwirfoddol neu'r trydydd sector.
- Ymgynghoriad ar gyfer pobl ifanc.
- Ymgynghoriad ar-lein ffurfiol a oedd yn agored i bawb.

2.10 2013-14 – Ymgynghoriad ynghylch Papur Gwyn Bil yr Amgylchedd: Fe

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/rheoliadau-ailgylchu-yn-y-gweithle-asesiad-effaith-integredig-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

ymgynghorwyd ynghylch y ddyletswydd gwahanu yn ymgynghoriad Papur Gwyn Bil yr Amgylchedd trwy:

- bedwar digwyddiad ymgynghori rhanbarthol a gynhaliwyd ar gyfer y cyhoedd;
- gweithdai i randdeiliaid;
- ymgynghoriad ar-lein ffurfiol a oedd yn agored i bawb.

2.11 2019-2020 – Ymgynghoriad ynghylch Mwy Nag Ailgylchu, Strategaeth Economi Gylchol Cymru:

Roedd yr ymgynghoriad hwn yn cynnwys dau amcan penodol a oedd yn gysylltiedig â'r diwygiadau hyn "Er mwyn annog busnesau a'r sector cyhoeddus i ailgylchu mwy o wastraff, bydd angen ailgylchu o safon ym mhob lleoliad annomestig, er mwyn i fusnesau wahanu eu gwastraff yn yr un modd ag y mae cartrefi eisoes yn ei wneud…" a "Byddwn yn deddfu i sicrhau bod deunyddiau ailgylchadwy allweddol wedi'u gwahanu'n cael eu gwahardd o safleoedd adfer ynni neu dirlenwi". Cynhaliwyd y gweithgareddau ymgysylltu canlynol fel rhan o'r ymgynghoriad:

- Cynhaliwyd oddeutu 40 o ddigwyddiadau wyneb-yn-wyneb, gan gynnwys sesiynau gwahoddiad agored a digwyddiadau rhanbarthol a oedd wedi'u teilwra i gynulleidfaoedd penodol a oedd yn cynnwys pobl ifanc, awdurdodau lleol, busnesau, y sector gwastraff, grwpiau amgylcheddol, cyrff rheoleiddio ac academyddion.
- Cafodd llawer o'r digwyddiadau ymgynghori swyddogol eu cynnal mewn cymunedau ac ysgolion. Gofynnwyd i'r rhai a oedd yn bresennol nid dim ond beth oeddent yn ei feddwl am yr ymgynghoriad fel yr oedd wedi'i ddrafftio, ond beth oedd eu syniadau i Gymru gyflawni dyfodol diwastraff, statws carbon sero net ac economi fwy cylchol.
- Ymgynghoriad ar-lein ffurfiol a oedd yn cynnwys ymgynghori ynghylch y nod: "Er mwyn annog busnesau a'r sector cyhoeddus i ailgylchu mwy o wastraff, bydd angen ailgylchu o safon ym mhob lleoliad annomestig, er mwyn i fusnesau wahanu eu gwastraff yn yr un modd ag y mae cartrefi eisoes yn ei wneud".

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/rheoliadau-ailgylchu-yn-y-gweithle-asesiad-effaith-integredig-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

2.12 Ymgynghoriad yn 2019 ynghylch Cynyddu Ailgylchu ymhlith Busnesau yng Nghymru: Fe wnaeth ymgynghoriad ffurfiol tuag at ddiwedd 2019 nodi cynigion i gyflwyno offerynnau statudol (OSau) i gynyddu ailgylchu o safleoedd annomestig megis busnesau a’r sector cyhoeddus yng Nghymru. [18] Cafwyd cyfanswm o 100 o ymatebion gan 96 o wahanol sefydliadau.

2.13 Ymgynghoriad yn 2022-23 ynghylch y Ddeddfwriaeth Ailgylchu mewn Gweithleoedd: Rhwng 2022 a 2023 fe ymgysylltodd Llywodraeth Cymru â rhanddeiliaid a’r cyhoedd ynghylch y ddeddfwriaeth yn y ffyrdd canlynol:

- Ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol ynghylch y Cod Ymarfer drafft a chynigion gorfodi 2022-23, gan gael 95 o ymatebion gan 79 o wahanol sefydliadau ynghylch y Cod Ymarfer a 39 o ymatebion gan 33 o sefydliadau ynghylch y gyfundrefn orfodi.
- Cyfarfodydd anffurfiol gydag ystod o randdeiliaid dros dair blynedd.
- Pum digwyddiad ymgynghori rhithwir gydag ystod o sectorau gan gynnwys y sector gwirfoddol a chymunedol, busnesau, llywodraeth leol a’r sector cyhoeddus ehangach.

2.14 Trwy gydol ein gweithgarwch ymgysylltu helaeth ynghylch y polisi hwn o wahanu yn y tarddiad, nid yw Llywodraeth Cymru wedi canfod unrhyw dystiolaeth o effeithiau negyddol penodol ar gyfer plant a phobl ifanc.

2.15 Trwy ddatblygu’r polisi hwn, tan y dyddiad y daw’r ddeddfwriaeth i rym, sef 6 Ebrill 2024, bydd Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid yn parhau â digwyddiadau ymgysylltu i barhau i adnabod materion sy’n dod i’r amlwg ar gyfer plant a phobl ifanc. Bydd gan blant a phobl ifanc rôl flaenllaw o ran llywio’r economi gylchol. Byddwn yn parhau i gefnogi cenedlaethau’r presennol a’r dyfodol trwy addysg, hyfforddiant a’n rhaglenni amgylcheddol. Mae hyn yn hollbwysig i dyfu ymwybyddiaeth o ailgylchu a datblygu dealltwriaeth am newid hinsawdd, allyriadau, defnydd o ynni a chynhyrchu gwastraff.

[12] **Llywodraeth Cymru, Tuag at Ddyfodol Diwastraff, 2010** (llyw.cymru).

[13] **Llywodraeth Cymru, Tuag at Ddyfodol Diwastraff 2010–2050 Adroddiad**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/rheoliadau-ailgylchu-yn-y-gweithle-asesiad-effaith-integredig-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

**Cynnydd, 2015** (Saesneg yn Unig), (llyw.cymru).

[14] Gallech ystyried, er enghraifft, sut y byddai eich polisi'n effeithio'n wahanol ar y grwpiau canlynol o blant a phobl ifanc: y blynyddoedd cynnar, cynradd, uwchradd, oedolion ifainc; plant ag anghenion dysgu ychwanegol; plant anabl; plant sy'n byw mewn tlodi; plant o gefndiroedd Du, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol; Sipsiwn, Roma a Theithwyr; ymfudwyr; ceiswyr lloches; ffoaduriaid; siaradwyr Cymraeg; plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal; plant LHDTC+. Sylwer nad yw hon yn rhestr gynhwysfawr ac na fydd un profiad homogenaidd o fewn y carfannau hyn.

[15] **Effeithiau newid hinsawdd ar iechyd a llesiant**", 202.

[16] **Adolygiad o Lasbrint Casgliadau Llywodraeth Cymru, Eunomia, 2016**.

[17] Mae Erthygl 12 o CCUHP yn amodi bod gan blant yr hawl i fynegi eu barn, yn enwedig pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, a hawl i'w barn gael ei hystyried.

[18] Llywodraeth Cymru, **Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion. Cynyddu Ailgylchu ymhlith Busnesau yng Nghymru, 2021**.

# 3. Dadansoddi'r dystiolaeth ac asesu'r effaith

## Gan ddefnyddio'r dystiolaeth yr ydych wedi'i chasglu, pa effaith y mae eich polisi'n debygol o'i chael ar blant a phobl ifanc? Pa gamau fyddwch chi'n eu cymryd i liniaru a/neu leihau unrhyw effeithiau negyddol?

3.1 Mae gan blant a phobl ifanc rôl hollbwysig o ran cefnogi ymrwymiadau Cymru i greu dyfodol diwastraff a bod ag allyriadau carbon sero net erbyn 2050, yn ogystal â chefnogi ein cynnydd tuag at economi fwy cylchol. Mae'r

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/rheoliadau-ailgylchu-yn-y-gweithle-asesiad-effaith-integredig-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

diwygiadau hyn yn hollbwysig i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur sydd nid yn unig yn allweddol i gynyddu swm a gwella ansawdd y deunyddiau ailgylchu o safleoedd annomestig ond sydd hefyd yn elfen hanfodol o'r gwaith i gyflawni ymrwymiadau Cymru i greu dyfodol diwastraff a bod ag allyriadau carbon sero net erbyn 2050. Byddant hefyd yn ein helpu i leihau llygredd amgylcheddol a'r effaith yr ydym yn ei chael y tu allan i Gymru trwy echdynnu deunyddiau crai ar gyfer y nwyddau a ddefnyddir gennym.

3.2 Hyd yma, mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi dros £1 biliwn mewn ailgylchu gan aelwydydd, sydd wedi trawsnewid Cymru o wlad a oedd yn ailgylchu llai na 5% o'i gwastraff trefol i wlad sy'n ailgylchu mwy na 65% yn 2021-22 ac sydd eisoes yn cyfrannu arbedion o oddeutu 400,000 o dunelli o allyriadau CO2 y flwyddyn. Bydd y diwygiadau hyn i wella ailgylchu gan ein busnesau, ein sector cyhoeddus a'n trydydd sector yn golygu ein bod yn cymryd y cam nesaf yn ein taith fel gwlad sy'n ailgylchu. Mae gweithredu parhaus yn y maes hwn yn allweddol i'n hymrwymiadau i ymgorffori ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn ac adeiladu economi gryfach, wyrddach wrth i ni wneud y cynnydd mwyaf posibl tuag at ddatgarboneiddio; gan greu Cymru werdd a llewyrchus ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

## Sut y mae eich cynnig yn gwella neu'n herio hawliau plant, fel a amodir gan erthyglau CCUHP a'i Brotocolau Dewisol? Cyfeiriwch at yr erthyglau i weld pa rai sy'n berthnasol i'ch polisi chi eich hun.

| Erthyglau neu Brotocol Dewisol CCUHP | Yn gwella (X) | Yn herio (X) | Eglurhad |
|---|---|---|---|
| Erthygl 12 Mae gan blant yr hawl i ddweud beth | X | | Mae plant a phobl ifanc yn rhanddeiliaid uniongyrchol yr effeithir arnynt gan y diwygiadau hyn. Fodd bynnag, |

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/rheoliadau-ailgylchu-yn-y-gweithle-asesiad-effaith-integredig-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

| Erthyglau neu Brotocol Dewisol CCUHP | Yn gwella (X) | Yn herio (X) | Eglurhad |
| --- | --- | --- | --- |
| maen nhw’n meddwl ddylai ddigwydd, pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy’n effeithio arnynt, a hawl i'w barn gael ei hystyried. | | | byddant yn cael budd enfawr o’r llu o fanteision economaidd ac o safbwynt iechyd.<br><br>Bydd effaith uniongyrchol ar blant a phobl ifanc gan bod y diwygiadau hyn yn cwmpasu ysgolion a cholegau a lleoedd eraill y maent yn ymweld â hwy. Bydd disgwyl iddynt roi eu sbwriel yn y bin ailgylchu cywir. |
| Erthygl 13 Mae gan blant yr hawl i gael ac i rannu gwybodaeth cyn belled nad yw’r wybodaeth yn niweidiol iddynt hwy nac i eraill. | X | | Byddwn yn darparu gwybodaeth ac offer i gynorthwyo’r holl safleoedd annomestig a’r sector gwastraff i gydymffurfio â’r rheoliadau, fel astudiaethau achos arfer gorau a chanllawiau ac arwyddion ac adnoddau y gellir eu lawrlwytho. Hefyd, bydd y cynnwys ar llyw.cymru yn cael ei ddiweddaru, a bydd ymgyrch cenedlaethol a fydd yn canolbwyntio ar y cyfryngau cymdeithasol, gan ymgysylltu â chyfryngau traddodiadol a gweithio gyda’n partneriaid.<br><br>Mae’r holl ddata cryno ar sut y caiff gwastraff ei reoli yng Nghymru’n cael ei gyhoeddi ar y rhyngrwyd, i bawb allu ei gyrchu. Mae data mwy manwl ar gael ar gais. |
| Erthygl 24 Mae gan blant yr hawl i ofal iechyd o ansawdd da ac i ddŵr glân, bwyd maethlon ac amgylchedd glân | X | | Mae’r argyfwng hinsawdd a natur yn fater dybryd sy’n effeithio ar genedlaethau’r presennol a’r dyfodol. Mae’r diwygiadau hyn yn hybu Erthygl 24 yn uniongyrchol a byddant yn helpu i leddfu pryderon sylweddol sy’n ymwneud ag amgylchedd glân. Bydd y rheoliadau hyn yn golygu bod ailgylchu gan fusnesau, y sector cyhoeddus a’r trydydd sector yn gyson â’r |

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/rheoliadau-ailgylchu-yn-y-gweithle-asesiad-effaith-integredig-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

| Erthyglau neu Brotocol Dewisol CCUHP | Yn gwella (X) | Yn herio (X) | Eglurhad |
|---|---|---|---|
| fel eu bod yn aros yn iach. Dylai gwledydd cyfoethog helpu gwledydd tlotach i gyflawni hyn. | | | system lwyddiannus ar gyfer ailgylchu gan aelwydydd yng Nghymru sy'n cyfrannu arbedion o oddeutu 400,000 o dunelli o allyriadau $CO_2$ y flwyddyn, gan sicrhau Cymru lanach, wyrddach ac iachach i blant a phobl ifanc. |

3.3 Ystyriwch a yw unrhyw Hawliau ar gyfer Dinasyddion yr UE (y cyfeirir atynt yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb) yn ymwneud â phobl ifanc hyd at 18 oed.

3.4 Mae'r cynigion hyn yn cynnwys eithriadau i sicrhau nad yw ein polisi'n effeithio ar unrhyw erthyglau yn y Ddeddf Hawliau Dynol. Bydd canllawiau'n cael eu cyhoeddi i roi cymorth i roi'r cynigion ar waith. Y bwriad yw darparu gwybodaeth a fydd yn sicrhau bod eglurder ar gyfer swyddogion gorfodi, cyflenwyr, manwerthwyr ac aelodau'r cyhoedd. Bydd yn cael ei chyhoeddi a bydd ar gael i'r holl ddinasyddion mewn ystod o fformatau i sicrhau ei bod yn hygyrch i bawb. I gael rhagor o wybodaeth, gweler yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/rheoliadau-ailgylchu-yn-y-gweithle-asesiad-effaith-integredig-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# 4. Cyfathrebu gyda Phlant a Phobl Ifanc

## Os ydych wedi ceisio barn plant a phobl ifanc ynglŷn â'ch cynnig, sut fyddwch yn eu hysbysu ynghylch y canlyniad?

4.1 Mae'r ymgyngoriadau a arweiniodd at y diwygiadau hyn ac a'u goleuodd wedi cynnwys pobl ifanc yn weithredol. Fodd bynnag, nid yw barn pobl ifanc am fanylion manwl a thechnegol y diwygiadau i drefniadau ailgylchu mewn gweithleoedd wedi cael ei cheisio y tu allan i'r ymgynghoriad cyffredinol. Y rheswm dros hyn yw bod cynnwys y diwygiadau i drefniadau ailgylchu'n weithle-benodol ac yn dechnegol o ran eu natur. Er y bydd yr effeithiau'n dwyn budd cadarnhaol i blant a phobl ifanc, ac y bydd plant a phobl ifanc yn ymgysylltu â'r diwygiadau pan fyddant mewn gweithleoedd, nid dyna brif amcan y diwygiadau. Wedi dweud hynny, bydd y polisi hwn yn effeithio ar blant o ran y manteision, a bydd yn effeithio arnynt gan y bydd angen iddynt roi eu sbwriel yn y biniau cywir pan fyddant yn ymweld â gweithleoedd fel ysgolion, canolfannau hamdden, caffis ac ati yn yr un ffordd ag y byddant eisoes yn ei wneud gartref.

4.2 Eco-Sgolion a Maint Cymru yw'r prif lwyfannau sydd gan Lywodraeth Cymru i ymgysylltu'n uniongyrchol â phlant a phobl ifanc ynghylch ymddygiadau cynaliadwy, newid hinsawdd a blaenoriaethau o ran adnoddau naturiol. Mae'r rhaglenni wedi datblygu cenhedlaeth sy'n ymwybodol o'r amgylchedd ac nad ydynt yn syml yn canolbwyntio ar leihau gwastraff ac ailgylchu ond sy'n canolbwyntio ar sut y gall ysgolion a chymunedau gyfrannu tuag at wella canlyniadau ehangach yn eu cymunedau gan leihau allyriadau ar yr un pryd. [19] Mae llawer o ysgolion eisoes yn ymgysylltu â'r gwaith hwn trwy weithredu i leihau eu gwastraff, creu partneriaethau lleol â busnesau a sefydliadau eraill i wella'u cymunedau lleol a dod o hyd i ddefnyddiau pellach ar gyfer y deunyddiau.

4.3 Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn briffio plant a phobl ifanc unwaith y bydd y ddeddfwriaeth wedi'i chyflwyno i'r Senedd ac yn rhoi gwybodaeth gyson

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/rheoliadau-ailgylchu-yn-y-gweithle-asesiad-effaith-integredig-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

iddynt am ddatblygiadau. Er mwyn gwneud hynny, byddwn yn darparu crynodeb hawdd i'w ddarllen o'r cod ymarfer, cyfathrebiadau, offer a chanllawiau. Bydd ymgyrch cyfathrebu a chyfryngau cymdeithasol cenedlaethol hefyd i godi ymwybyddiaeth o'r gofynion. Byddwn hefyd yn defnyddio'r eiconograffeg WRAP a gynhyrchwyd i helpu ymwelwyr â gweithleoedd i ddeall pa sbwriel sy'n mynd ym mha fin. Bydd hyn yn defnyddio delweddau a dyluniadau syml a lliwiau cyson i gynorthwyo pobl i ddeall ac i sicrhau cydymffurfiaeth. Hefyd, byddwn yn darparu gwybodaeth ac offer i gefnogi safleoedd annomestig (gan gynnwys ysgolion a cholegau) a'r sector gwastraff i gydymffurfio â'r rheoliadau, megis astudiaethau achos a chanllawiau arfer gorau ac arwyddion ac adnoddau y gellir eu lawrlwytho. Y bwriad yw darparu gwybodaeth a fydd yn sicrhau bod eglurder ar gyfer swyddogion gorfodi, cyflenwyr, manwerthwyr ac aelodau'r cyhoedd.

[19] **"Eco-Sgolion", Cadwch Gymru'n Daclus**.

# 5. Monitro ac Adolygu

## Amlinellwch y mecanwaith monitro ac adolygu y byddwch yn ei roi ar waith i adolygu'r Asesiad hwn o'r Effaith ar Hawliau Plant.

5.1 Bydd Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi cynllun monitro ar ôl gweithredu a fydd yn ceisio mesur llwyddiant prif amcanion ac amcanion eilaidd y diwygiadau. Bydd y cynllun yn golygu ei bod yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gynnal adolygiad o bryd i'w gilydd i ganfod a fydd manteision y polisi o fudd i genedlaethau'r dyfodol a phlant, i wneud yn siŵr eu bod yn cael eu gwireddu.

## Yn dilyn yr adolygiad hwn, a oes unrhyw ddiwygiadau'n ofynnol i'r polisi neu'r modd y caiff ei roi ar waith?

5.2 Bydd canlyniadau'r broses o roi'r rheoliadau ar waith yn cael eu monitro

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/rheoliadau-ailgylchu-yn-y-gweithle-asesiad-effaith-integredig-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

gyda chyfuniad o ddulliau meintiol ac ansoddol, gan ddibynnu ar natur y canlyniad ac argaeledd ffynhonnell ddata briodol. Rhagwelir ar hyn o bryd y bydd system tracio Gwastraff, o 2025 ymlaen, yn cael ei defnyddio fel y brif ffynhonnell ddata i dracio lefelau ailgylchu ar gyfer gwastraff diwydiannol a masnachol yng Nghymru, gan y bydd yn darparu gwybodaeth a fydd yn ei gwneud yn bosibl mesur swm y gwastraff a anfonir i gael ei ailgylchu, i safle tirlenwi, neu i gael ei losgi, a ble y caiff ei waredu.

5.3 Os bydd unrhyw fylchau yn y data neu oedi cyn dechrau defnyddio'r system Tracio Gwastraff, mae nifer o ffynonellau data ychwanegol yn bodoli a gellid eu defnyddio yn y cyfamser: Maent yn cynnwys WasteDataFlow, y Cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr ar gyfer deunydd pacio, arolygon gwastraff ac ailgylchu Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), data 'ffurflenni safleoedd' CNC.

5.4 Bydd y canlyniadau sy'n ymwneud â gwaredu llai o wastraff bwyd i garthffos yn cael eu monitro yn ystod yr arolygiadau a gynhelir gan Swyddogion Iechyd Amgylcheddol Awdurdodau Lleol, a fydd yn rhoi gwybod am y safleoedd sy'n gwaredu gwastraff bwyd i garthffos.

5.5 Yn ychwanegol at yr uchod, bydd Llywodraeth Cymru'n archwilio'r angen am arolygon a gomisiynir yn benodol i fonitro ymhellach faint o gydymffurfio sydd ac unrhyw rwystrau posibl i roi'r cynigion ar waith yn llwyddiannus neu ychwanegu cwestiynau sy'n ymwneud yn benodol â'r rheoliadau at yr arolygon busnes sydd eisoes yn yr arfaeth ar gyfer y dyfodol. Gallai hyn gynnwys ystyried pa mor dda y mae plant a phobl ifanc yn gallu deall y gofynion i ddidoli eu gwastraff yn y safleoedd annomestig y maent yn ymweld â hwy a chydymffurfio â'r gofynion hynny. Ar ben hynny, bydd data ansoddol a gesglir yn ystod arolygiadau gan CNC, ALlau ac ar lefel Cymru gyfan o safleoedd annomestig a thrinwyr gwastraff yn darparu gwybodaeth bellach am effeithiau'r rheoliadau ar fusnesau ac yn cael ei ddefnyddio i adnabod ffyrdd o godi rhwystrau posibl.

5.6 Mae'r uchod yn rhestr helaeth ond nid yw'n rhestr gynhwysfawr o'r manteision ehangach y bydd y rheoliadau'n helpu i'w cyflawni. Fodd bynnag, bydd y llwyddiant o ran cyflawni'r canlyniadau hyn yn dibynnu ar yr ystod o bolisïau sydd eisoes ar waith a/neu a fydd yn cael eu cyflwyno yn y dyfodol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/rheoliadau-ailgylchu-yn-y-gweithle-asesiad-effaith-integredig-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Bydd union faint a chwmpas camau i fesur manteision ehangach yn cael eu pennu yn seiliedig ar argaeledd adnoddau. Bydd yr angen i fonitro budd ehangach ar ôl rhoi'r ddeddfwriaeth ar waith yn cael ei gynnwys ym mhroses cynllunio busnes a phennu cyllideb Llywodraeth Cymru, y mae'n rhaid iddi daro cydbwysedd rhwng y blaenoriaethau a'r adnoddau sydd ar gael.

# Asesiad o'r effaith ar y Gymraeg

# Manylion

Cyfeirnod yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg (wedi'i gwblhau gan Dîm Safonau'r Gymraeg, e-bost: **Safonau.Standards@gov.wales**): 01/08/2023

# 2. A yw'r cynnig yn dangos cyswllt clir â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg? – Cymraeg 2050 Miliwn o Siaradwyr a'r Rhaglen Waith gysylltiedig ar gyfer 2017-2021

2.1 Mae'r rheoliadau'n cyflawni yn erbyn dau ymrwymiad trosfwaol yn y Rhaglen Lywodraethu:

- adeiladu economi gryfach a gwyrddach wrth inni ddatgarboneiddio cymaint â phosibl; ac
- ymgorffori ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn.

2.2 Mae'r diwygiadau hefyd yn elfen graidd o'r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i gyflwyno cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr (EPR) i roi cymhelliant i fusnesau leihau gwastraff. Y rheswm dros hyn yw eu bod yn hwyluso ac yn gwella'r broses o wahanu a chasglu deunyddiau o'r holl safleoedd annomestig, elfen allweddol o gyflawni system EPR gyflawn.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/rheoliadau-ailgylchu-yn-y-gweithle-asesiad-effaith-integredig-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

2.3 Mae'r Rhaglen Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr yn cyfrannu at nodau llesiant eraill hefyd, trwy sicrhau bod dwyieithrwydd yn rhan annatod o fywyd yng Nghymru. Gan hynny, bydd yr holl gyfathrebiadau ynglŷn â'r rheoliadau a'r broses o'u rhoi ar waith yn ddwyieithog. Mae hyn yn cynnwys yr ymgyrch ymwybyddiaeth cenedlaethol sy'n gysylltiedig â'r rheoliadau a gwybodaeth ac offer i gynorthwyo safleoedd annomestig a'r sector gwastraff i gydymffurfio â'r Rheoliadau.

2.4 Gofynnodd yr ymgyngoriadau cyhoeddus diweddar a gynhaliwyd rhwng mis Tachwedd 2022 a mis Chwefror 2023 am adborth ar y Cod Ymarfer a'r gyfundrefn Orfodi arfaethedig ac fe'u cyhoeddwyd yn Gymraeg ac yn Saesneg. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr (79%) yn teimlo na fyddai unrhyw effaith gadarnhaol na negyddol ar y Gymraeg. Nododd dau ymatebydd bwysigrwydd y gofyniad i'r rheoliadau a chyfathrebu cysylltiedig fod yn Gymraeg ac yn Saesneg, gan bwysleisio mor bwysig ydoedd bod y cyfieithiadau Cymraeg yn eglur iawn ar gyfer agweddau technegol ar y rheoliadau. Bydd y Cod Ymarfer yn mynd trwy wiriad cyfatebiaeth at ddibenion sicrhau ansawdd sy'n ymdrin â'r adborth hwn.

2.5 Mae'r diwygiadau hyn yn elfen graidd, alluogol o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i greu dyfodol diwastraff ac yn cyfrannu at arbedion carbon sylweddol trwy gysoni ailgylchu annomestig â system ailgylchu domestig lwyddiannus Cymru. Ar ben hynny, bydd y diwygiadau hyn yn dwyn manteision pwysig o safbwynt amgylcheddol, economaidd ac iechyd i siaradwyr Cymraeg a Saesneg yng Nghymru. Nid oes unrhyw effeithiau rhagweladwy ar siaradwyr Cymraeg nac ar y Gymraeg. Bydd y rheoliadau, y Cod Ymarfer, gohebiaeth, canllawiau ac offer cymorth ar gyfer y sector a chyhoeddusrwydd yn cydymffurfio'n llawn â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/rheoliadau-ailgylchu-yn-y-gweithle-asesiad-effaith-integredig-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# 3. Disgrifiwch ac eglurwch effaith y cynnig ar y Gymraeg, ac eglurwch sut y byddwch yn ymdrin â’r effeithiau hyn er mwyn gwella canlyniadau ar gyfer y Gymraeg.

## Sut fydd y cynnig yn effeithio ar siaradwyr Cymraeg o bob oed (yn effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol)? Dylech nodi eich ymatebion i’r canlynol yn eich ateb i’r cwestiwn hwn, ynghyd ag unrhyw wybodaeth berthnasol arall:

3.1 Ni ragwelir unrhyw effeithiau andwyol ar y Gymraeg. O ran helpu i wella canlyniadau ar gyfer yr iaith, bydd yr holl gyfathrebu gan Lywodraeth Cymru, ei hasiantau a'r rheoleiddwyr mewn perthynas â’r rheoliadau a’u rhoi ar waith yn ddwyieithog. Mae hyn yn cynnwys yr ymgyrch ymwybyddiaeth cenedlaethol mewn perthynas â’r rheoliadau a gwybodaeth ac offer i gynorthwyo safleoedd annomestig a’r sector gwastraff i gydymffurfio.

3.2 Roedd adborth ymgynghori’n dynodi bod un ymatebydd yn pryderu y gallai’r rheoliadau leihau’r defnydd o’r Gymraeg trwy gynyddu’r galw am gasglwyr gwastraff preifat nad ydynt o bosibl yn gallu ymdrin ag ymholiadau yn Gymraeg, neu am eu bod yn ymdrin â chasglwyr/broceriaid sydd wedi’u lleoli’r tu allan i Gymru. Fodd bynnag, nid oes tystiolaeth i awgrymu y bydd y polisi hwn yn achosi newid sylweddol ym mhatrwm y galw am gasgliadau gwastraff gan wasanaethau preifat o’i gymharu â gwasanaethau Awdurdodau Lleol. Bydd gan feddianwyr safleoedd annomestig yr opsiwn i gontractio gyda’u Hawdurdod Lleol ar gyfer y gwasanaeth casglu gwastraff. Mae gan ALlau ddyletswydd bresennol i gasglu unrhyw wastraff masnachol o safle yn ei ardal os yw’r meddiannwr yn gofyn iddo wneud hynny ac mae ganddynt ddyletswydd i gydymffurfio â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

# 4. Sut fydd y cynnig yn effeithio ar gynaliadwyedd

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/rheoliadau-ailgylchu-yn-y-gweithle-asesiad-effaith-integredig-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## cymunedau Cymraeg [20] (yn effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol)?

4.1 Ni fydd unrhyw effeithiau andwyol ar gynaliadwyedd cymunedau Cymraeg – bydd ganddynt yr un lefel uchel o ddarpariaeth gwasanaethau ailgylchu ag unrhyw gymuned arall yng Nghymru.

4.2 Darparodd yr ymgyngoriadau diweddar fewnwelediad i'r effeithiau y byddai ein polisi'n eu cael ar y Gymraeg a sut yr oedd rhanddeiliaid yn teimlo ynglŷn â hynny. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr i'r ymgyngoriadau (79%) yn teimlo na fyddai unrhyw effeithiau cadarnhaol na negyddol ar y Gymraeg. Hefyd, roedd dau ymatebydd yn teimlo y gallai fod effaith gadarnhaol o ran creu cyfle i siarad gyda chwsmeriaid yn Gymraeg.

4.3 Nododd llawer o ymatebwyr y gofyniad i'r rheoliadau a chyfathrebu cysylltiedig fod yn Gymraeg ac yn Saesneg, gydag un ymatebydd yn pwysleisio mor bwysig ydoedd bod y cyfieithiadau Cymraeg yn eglur iawn ar gyfer agweddau technegol ar y rheoliadau. Rydym yn sicrhau y bydd yr holl gyfathrebu mewn perthynas â'r rheoliadau a'u rhoi ar waith yn ddwyieithog. Mae hyn yn cynnwys yr ymgyrch ymwybyddiaeth cenedlaethol sy'n ymwneud â'r Rheoliadau a gwybodaeth ac offer i gynorthwyo safleoedd annomestig a'r sector gwastraff i gydymffurfi â'r rheoliadau.

[20] Gall y rhain fod yn gymunedau gwledig clòs, yn rhwydweithiau cymdeithasol gwasgaredig mewn lleoliadau trefol, ac mewn cymunedau rhithwir sy'n ymestyn ar draws mannau daearyddol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/rheoliadau-ailgylchu-yn-y-gweithle-asesiad-effaith-integredig-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# 5. Sut fydd y cynnig yn effeithio ar addysg cyfrwng Cymraeg a dysgwyr Cymraeg o bob oed, gan gynnwys oedolion (yn effeithiau cadarnhaol a/neu negyddol)?

5.1 Ni fydd unrhyw effaith andwyol ar addysg cyfrwng Cymraeg a dysgwyr Cymraeg o bob oed. Rydym wedi rhoi ystyriaeth gref i adborth o’r ymgyngoriadau diweddar, gyda llawer o ymatebwyr yn nodi’r gofyniad i’r rheoliadau a chyfathrebu cysylltiedig fod yn Gymraeg ac yn Saesneg. Fe wnaeth un ymatebydd bwynt i bwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod y cyfieithiadau Cymraeg yn eglur iawn ar gyfer agweddau technegol ar y rheoliadau. Gan gadw hyn mewn cof, mae Llywodraeth Cymru wedi sicrhau bod yr holl gyfieithiadau’n eglur iawn ar gyfer agweddau technegol ar y rheoliadau o ystyried natur gymhleth y cynnwys yr oedd angen ei gyfieithu, gan ddefnyddio gwasanaethau cyfieithu a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer dogfennau, cynnwys y wefan a chyhoeddiadau Gweinidogol a gynhyrchir gan Lywodraeth Cymru. Rydym hefyd yn cymryd y cam ychwanegol i gynnal gwiriad cyfatebiaeth o’r Cod Ymarfer at ddibenion sicrhau ansawdd. Bydd gwiriad cyfatebiaeth o’r Offerynnau Statudol yn cael ei gynnal hefyd gan ddefnyddio gwasanaeth cyfieithu cymeradwy gwasanaethau cyfreithiol Llywodraeth Cymru. Bydd yr holl gyfathrebu a chanllawiau mewn perthynas â'r rheoliadau a'u rhoi ar waith yn ddwyieithog. Mae hyn yn cynnwys yr ymgyrch ymwybyddiaeth cenedlaethol mewn perthynas â’r rheoliadau a gwybodaeth ac offer megis canllawiau ar gyfer y sector ac astudiaethau achos i gynorthwyo safleoedd annomestig a’r sector gwastraff i gydymffurfio â’r rheoliadau.

# 6. Sut fydd y cynnig yn effeithio ar y gwasanaethau [21] sydd ar gael yn Gymraeg (yn effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol)? (e.e. gwasanaethau iechyd a chymdeithasol, cludiant,

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/rheoliadau-ailgylchu-yn-y-gweithle-asesiad-effaith-integredig-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## tai, digidol, ieuenctid, seilwaith, yr amgylchedd, llywodraeth leol ac ati)

6.1 Mae Strategaeth y Gymraeg yn amcanu at gynyddu ystod y gwasanaethau a gynigir i siaradwyr Cymraeg, a chreu cynnydd yn y defnydd o wasanaethau Cymraeg. Rydym wedi rhoi ystyriaeth gref i adborth o ymgyngoriadau diweddar, ymgysylltiad â rhanddeiliaid a grwpiau ffocws. Bydd yr holl reoliadau, gohebiaeth a chyhoeddusrwydd yn cydymffurfio â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 felly nid oes unrhyw effaith ar y Gymraeg.

6.2 Mae Awdurdodau Lleol yn bartneriaid allweddol, yn hanfodol i gyflawni'r rheoliadau, fel casglwyr gwastraff, fel rheoleiddwyr gwaharddiad ar anfon gwastraff bwyd i garthffos, fel meddianwyr safleoedd annomestig. Maent yn ymrwymedig i hyrwyddo'r Gymraeg ac mae'r holl gyfathrebiadau, cyfryngau cymdeithasol a marchnata'n cael eu cymhwyso'n ddwyieithog. Mae adran wastraff yr Awdurdod Lleol yn cyflogi nifer sylweddol o siaradwyr Cymraeg hefyd. [22] Roedd cwpl o ymatebwyr a ddarparodd adborth gan ddynodi pryder y gallai'r rheoliadau leihau'r defnydd o'r Gymraeg trwy gynyddu'r galw am gasglwyr gwastraff preifat nad ydynt o bosibl yn gallu ymdrin ag ymholiadau yn Gymraeg, neu am eu bod yn ymdrin â chasglwyr/broceriaid sydd wedi'u lleoli'r tu allan i Gymru. Nid oes tystiolaeth i awgrymu y bydd y polisi hwn yn achosi newid sylweddol ym mhatrwm y galw am gasgliadau gwastraff gan wasanaethau preifat o'i gymharu â gwasanaethau Awdurdodau Lleol. Bydd gan feddianwyr safleoedd annomestig yr opsiwn i gontractio gyda'u Hawdurdod Lleol ar gyfer eu gwasanaeth casglu gwastraff ac mae gan Awdurdodau Lleol ddyletswydd i ddarparu gwasanaethau dwyieithog. Mae gan ALlau ddyletswydd bresennol i gasglu unrhyw wastraff masnachol o safle yn ei ardal os yw'r meddiannwr yn gofyn iddo wneud hynny ac mae ganddynt ddyletswydd i gydymffurfio â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

6.3 Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr (68%) yn teimlo na fyddai unrhyw effeithiau andwyol ar y Gymraeg. Dywedodd dau ymatebydd hefyd eu bod yn teimlo y byddai'r rheoliadau'n achosi effaith gadarnhaol o ran cynhwysiant trwy

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/rheoliadau-ailgylchu-yn-y-gweithle-asesiad-effaith-integredig-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

greu cyfle i siarad gyda chwsmeriaid Cymraeg.

[21] Mae Strategaeth y Gymraeg yn amcanu at gynyddu ystod y gwasanaethau a gynigir i siaradwyr Cymraeg, a chreu cynnydd yn y defnydd o wasanaethau Cymraeg.

[22] **Llywodraeth Cymru, Casglu deunyddiau gwastraff ar wahân ar gyfer ailgylchu – cod ymarfer Cymru, 2023**, .

# 7. Sut fyddwch chi'n sicrhau bod pobl yn gwybod am wasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg a'u bod yn gallu cael mynediad atynt a'u defnyddio mor rwydd ag y gallant yn Saesneg?

## Pa dystiolaeth / data ydych chi wedi'u defnyddio i oleuo eich asesiad, gan gynnwys tystiolaeth gan siaradwyr Cymraeg neu grwpiau buddiant y Gymraeg?

7.1 Bydd yr holl reoliadau, gohebiaeth a chyhoeddusrwydd yn cydymffurfio â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Hefyd, roedd ymgyngoriadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru ynghylch y Cod Ymarfer a'r gyfundrefn Orfodi arfaethedig rhwng mis Tachwedd 2022 a mis Chwefror 2023 yn ddwyieithog i sicrhau ein bod yn ceisio barn gan randdeiliaid mor eang â phosibl.

7.2 Mae'r holl gyfathrebu ffurfiol gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r rheoliadau a'u rhoi ar waith yn ddwyieithog, ac os cysylltir â ni yn Gymraeg mae gennym fandad i hwyluso ymatebion yn Gymraeg. Mae'r ymgyrch cyfathrebu cenedlaethol mewn perthynas â dod â'r rheoliadau i rym a gwybodaeth ac offer i gynorthwyo safleoedd annomestig a'r sector gwastraff i gydymffurfio'n gwbl ddwyieithog. Cynhaliwyd grwpiau ffocws ac arolygon omnibws gyda busnesau bychain yn Gymraeg ac yn Saesneg i sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn cael eu cynnwys. Mae'r holl ddeunyddiau cyfathrebu dilynol yn cael eu profi'n

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/rheoliadau-ailgylchu-yn-y-gweithle-asesiad-effaith-integredig-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

barhaus gyda siaradwyr Cymraeg ac mae eu hansawdd yn cael ei sicrhau ganddynt. Bydd canllawiau a seminarau gwybodaeth sector-benodol ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg hefyd. Rydym hefyd yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg mewn perthynas â'r rheoliadau. Mae fersiynau o'r holl ddogfennau cysylltiedig mewn print bras, Braille, Iaith Arwyddion Prydain a fersiynau mewn ieithoedd eraill ar gael hefyd ar gais.

7.3 Fel partneriaid allweddol i roi'r rheoliadau ar waith, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), Awdurdodau Lleol a WRAP Cymru yn anhepgor i ddarparu offer ac adnoddau dwyieithog. CNC fydd yn gyfrifol am reoleiddio'r gofynion ac eithrio'r gwaharddiad ar waredu gwastraff bwyd i garthffos. Awdurdodau Lleol fydd yn rheoleiddio'r gwaharddiad ar waredu gwastraff bwyd i garthffos o safleoedd annomestig. Bydd y ddau'n darparu canllawiau a gwybodaeth ar gyfer y rhai yr effeithir arnynt, gan gynnwys offer ac adnoddau dwyieithog mewn perthynas â'r gyfundrefn orfodi a fydd yn cael ei chyflwyno i sicrhau bod pawb yr effeithir arnynt yn ymwybodol iawn o'r gofynion ac yn cydymffurfio. Yn yr un modd, mae Busnes Cymru'n rhanddeiliad allweddol sy'n rhoi cymorth i ddosbarthu gwybodaeth am y diwygiadau hyn ac sy'n rhoi cymorth i fusnesau trwy gyfrwng y Gymraeg os yw busnes yn gofyn am ymgynghorydd Cymraeg.

# 8. Pa dystiolaeth arall fyddai'n eich helpu i gynnal asesiad gwell?

8.1 Mae'r diwygiadau hyn yn cael effaith gadarnhaol uniongyrchol ar siaradwyr Cymraeg, a byddant yn cael budd enfawr o'r llu o fanteision o safbwynt amgylcheddol, economaidd ac iechyd unwaith y daw'r diwygiadau i rym. O'r ymgysylltu hyd yma mae'n amlwg nad yw'n ymddangos bod angen am ymgysylltu ychwanegol wedi'i dargedu gyda siaradwyr Cymraeg.

8.2 Mae ymgyrch cyfathrebu cenedlaethol yn cael ei lansio a fydd yn codi ymwybyddiaeth o'r gofynion o ran yr hyn y mae'n rhaid i weithleoedd ei wneud i reoli eu gwastraff. Bydd hyn yn cynnwys hysbysebu ar draws ystod o sianeli (teledu, radio, oddi allan i'r cartref, digidol a chymdeithasol), marchnata

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/rheoliadau-ailgylchu-yn-y-gweithle-asesiad-effaith-integredig-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

uniongyrchol wedi'i dargedu, astudiaethau achos wedi'u datblygu o ystod o sectorau, gweminarau, pecynnau cymorth partneriaid a defnyddio sianeli presennol sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru a rhwydweithiau presennol rhanddeiliaid. Bydd yr ymgyrch cyfathrebu'n ddwyieithog ac mae'n cynnwys ymgysylltu wedi'i dargedu gyda siaradwyr Cymraeg. Bydd hefyd yn galluogi busnesau, gan gynnwys casglwyr gwastraff, i hysbysebu eu busnes a'u gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg, gan felly gynyddu presenoldeb gweledol yr iaith a'r defnydd ohoni yn y gymuned fusnes.

# 9. Sut fyddwch chi'n gwybod a yw eich polisi'n llwyddiant?

9.1 Bydd yr holl safleoedd annomestig (gan gynnwys busnesau, a'r cyhoedd a'r trydydd sector) yn gwahanu deunyddiau ailgylchadwy allweddol yn y ffordd y mae'r mwyafrif o ddeiliaid tai Cymru eisoes yn ei wneud. Hefyd, bydd siaradwyr Cymraeg yn gallu ymgysylltu'n ddi-dor â'r rheoliadau unwaith y byddant wedi cael eu rhoi ar waith, gan ddefnyddio'r offer a'r adnoddau sydd ar gael iddynt, yn yr un ffordd ag y mae siaradwyr Saesneg yng Nghymru yn ei wneud.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/rheoliadau-ailgylchu-yn-y-gweithle-asesiad-effaith-integredig-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.